Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

Heddlu•Police DYFED-POWYS
Diogelu ein Cymuned – Safeguarding our Community

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Bwrdd Plismona** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Gynadledda SCHTh** |
| **Dyddiad:** | **1 Mehefin 2016** |
| **Amser:** | **10:00 – 10:40** |

| | |
|---|---|
| **<u>Aelodau</u>:** | Mr Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Dirprwy Brif Gwnstabl Dros Dro Liane James (DBG) |
| **<u>Hefyd yn Bresennol</u>:** | Mrs Claire Bryant, Rheolwr Swyddfa, SCHTh (CB) |
| **<u>Ymddiheuriadau</u>:** | Prif Gwnstabl Simon Prince QPM (CC)<br>Mrs Jayne Woods, Prif Swyddog Ariannol (PSA)<br>Mr Adrian Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau (CA)<br>Mrs Carys Morgans, Pennaeth Staff, SCHTh (CM)<br>Arolygydd Mark McSweeney, Swyddog Staff (MMS) |

| **CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 26/05/16** | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb** | **Cynnydd** |
| **PB 2001** | **Michelle Williams o'r Cyd-grŵp Gwasanaethau Brys i ddarparu gwybodaeth i'r CHTh ar Raglen Cyfathrebu Symudol y Gwasanaethau Brys** | **Ar waith** |
| **PB 2002** | **CC a PSA i symud adolygiad o'r model costio NPAS (Gwasanaeth Heddlu Awyr Cenedlaethol) ymlaen, a chymharu data o ran y gwasanaeth awyr blaenorol â'r data cyfredol** | **Cyfredol** |
| **PB 2003** | **CC i roi cefndir y cytundeb NPAS i'r CHTh** | **Cyfredol** |
| **PB 2004** | **Trefnu sesiwn wybodaeth ar GanBwyll ar gyfer y CHTh** | **Ar waith** |
| **PB 2005** | **Adrodd i'r CHTh ar sut yr oedd arian dros ben o ran ailhyfforddi gyrwyr yn cael ei wario, a rhoi cynllun iddo ar gyfer gwariant yn y dyfodol** | **Ar waith** |
| **PB 2006** | **CC i roi crynodeb o fflyd yr Heddlu i'r CHTh** | **Ar waith** |

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Mai a materion yn codi**

Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir.

Mae'r CHTh wedi cyflwyno sylwadau i Gadeirydd Bwrdd y Gwasanaeth Heddlu Awyr Cenedlaethol er mwyn cynrychioli Cymru ar y Bwrdd.

Trafododd y CHTh a'r DBG yr angen ar gyfer datblygu strategaeth fanwl ar gyfer defnyddio arian sy'n weddill o ran y cyrsiau ailhyfforddi gyrwyr. Awgrymwyd y gellir

ystyried hwn drwy weithgor ac ailadroddodd y CHTh yr angen ar gyfer eglurder o ran ble mae'r arian hwn sy'n weddill yn cael ei wario.

**Diweddariad y Dirprwy Brif Gwnstabl**

Rhoddodd y DBG drosolwg o ddigwyddiadau gweithredol allweddol, gan gynnwys unigolyn coll yr oedd Heddlu De Cymru yn ein cynorthwyo ag ef; ref yn cynnwys 100 o gerbydau lle cafwyd cymorth y Gwasanaeth Heddlu Awyr Cenedlaethol; lladrad o siop yn Llanelli a arweiniodd at unigolyn yn cael ei ddal gan swyddog ar feic. Adroddodd unigolion o'r gymuned adroddiadau am weithgarwch amheus yn Llanbedr Pont Steffan a arweiniodd at bedwar unigolyn o Leeds yn cael ei arestio ar y bwriad i gyflawni byrgleriaethau. Darganfu bod dau o'r unigolion yn eisiau gan heddlu yn Lloegr am droseddau eraill. Roedd dau unigolyn wedi'u cadw yn y ddalfa yn dilyn ymosodiad difrifol yn Aberystwyth, lle'r oedd y dioddefydd dal yn yr ysbyty'n dioddef anafiadau difrifol i'r pen. Roedd Gŵyl y Gelli wedi mynd rhagddi'n dda, ynghyd â'r gweithgarwch ymwybyddiaeth beiciau modur, Ymgyrch Darwen, dros benwythnos gŵyl y banc. Nid oedd unigolyn o Romania a oedd wedi mynd ar goll o long Irish Ferries wedi'i ganfod, a chredir y gallai fod wedi syrthio i'r dŵr.

Adroddodd y DBG bod 3 aelod staff dal wedi'u gwahardd o'u gwaith.

**Diweddariad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu**

Rhoddodd y CHTh ddiweddariad byr ar ei flaenoriaethau cyfredol a'i lwyth gwaith a oedd yn cynnwys teledu cylch cyfyng a'r prosiect ystadau cyfredol. Bydd y CHTh yn cwrdd â'r Prif Swyddog Tân er mwyn trafod materion cysylltiedig a bydd yn sôn am gyfleoedd ar gyfer cydleoli. Bydd y CHTh hefyd yn trafod datblygiad llety'r Pencadlys â'r Cyfarwyddwr Adnoddau heddiw. Mae'r CHTh yn gobeithio cydlynu rhanddeiliaid allweddol i drafod datrysiad hirdymor ar gyfer teledu cylch cyfyng ledled Dyfed-Powys a fydd yn cynnwys ystadau, SGaTh a staff gweithredol.

**Unrhyw Fusnes Arall**

***Rheoli Galw***

Dywedodd y CHTh ei fod e'n bwriadu sicrhau bod penderfyniadau mawr yn seiliedig ar broffiliau galw. Cytunwyd y byddai'r PGC yn rhoi gwybodaeth i'r CHTh am y prosiect rheoli galw.

**Cam Gweithredu: PGC i roi gwybodaeth i'r CHTh am y prosiect rheoli galw**

Dywedodd y CHTh ei fod wedi cwrdd â Helen Morgan-Howard a Paul Morris i drafod trefniadau llywodraethu, ac roedd yn bwriadu trafod y mater ymhellach â nhw oherwydd mae'n teimlo bod hyn yn hollbwysig ar gyfer y bartneriaeth lwyddiannus mae'n ceisio rhwng ei swyddfa ef a'r gweithgarwch gweithredol.

***Bwrdd Ymchwil***

Mynegodd y CHTh ei awydd i sefydlu bwrdd 'Ymchwil' neu 'Plismona ar sail tystiolaeth', gyda chynrychiolwyr o'r heddlu a phartneriaid allanol megis sefydliadau academaidd, gyda'r bwriad o gronni'r gweithgarwch ymchwil a datblygiadau arloesedd. Cytunodd y DBG y byddai hyn yn ddefnyddiol ac y byddai'n gweithio gyda'r CHTh ar y mater oherwydd ei fod o fewn portffolio'r DBG. Hefyd, cytunodd y DBG i roi rhestr i'r CHTh o'r portffolios Prif Swyddogion cyfredol.

**Cam Gweithredu: Rhoi rhestr portffolios prif swyddogion i'r CHTh**

***Dyddiadau Cyfarfodydd yn y Dyfodol***

Awgrymodd y CHTh y dylai cyfarfodydd bwrdd plismona ddigwydd bob yn ail wythnos o 22 Mehefin. Cytunodd y DBG i hyn.

**Cam Gweithredu: SCHTh i drefnu cynnal y Bwrdd Plismona bob pythefnos**

| **CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 01/06/16** | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB 2007** | **PGC i roi gwybodaeth i'r CHTh am y prosiect rheoli galw** | **DBG** |
| **PB 2008** | **Rhoi rhestr portffolios prif swyddogion i'r CHTh** | **DBG** |
| **PB 2009** | **SCHTh i drefnu cynnal y Bwrdd Plismona bob pythefnos** | **SCHTh** |